

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybie ar nos Lun, Medi 11^{eg} 2017 am 6.30 yh

Presennol Mrs J. E Collins (Cadeirydd y Cyngor)

Cynghorwyr Mrs Ll. Latham Mrs Ll. Hindley R. A. Davies
N. Evans D. Hopkins I Rh. Llewelyn
Mrs C. Thomas

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr Mrs K.D.L.
Davies

84.

Ceisiadau am gymorth ariannol

Yn unol â Chofnod 693/95, aeth y Pwyllgor ati i ystyried y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol, a phenderfynu **argymell** i'r Cyngor fel a ganlyn:

Ceisiadau cyffredinol a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 137 ac Adran 145

Enw'r mudiad	Swm a argymhellir
Canolfan Therapi Plant, Bobath Cymru	£100
Canolfan Gymunedol Penygroes,	£200
Capel yr Annibynwyr, Penygroes – Coeden Nadolig i Benygroes	£200
Clwb Hanes Penygroes	£200
Clwb Pensiynwyr Capel Hendre	£300
Côr Merched Tybie	£300
Cŵn Tywys Cymru	£100
Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr Llandybie	£300
Eglwys y Plwyf, Llandybie – cynnal a chadw'r goleuadau Nadolig	£150
Glo Mân	£100
Gofal mewn Galar - Cruse	£150
Corfflu Hyfforddiant Awyr – Sgwadron Rhydaman	£300
Urdd Gobaith Cymru	£100
Cylch Meithrin Plant Bach Y Llan	£250

Argymhellion eraill

(i) Eglwys y Plwyf Llandybie - gwasanaeth i gloc y tŵr

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Eglwys y Plwyf, Llandybie ar gyfer gwasanaethu cloc y tŵr dan ddarpariaethau Deddf Eglwysi Plwyf 1957, Adran 2, ond fe ohiriwyd rhoi cymorth ariannol tan i gopi o wir gostau'r gwaith ar gloc y tŵr gael ei dderbyn.

(ii) Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin. Gan nad oedd cyfrifon lleol wedi'u derbyn, **argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(iii) Ymddiriedolaeth Cancr Pobl Ifanc

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ymddiriedolaeth Cancr Pobl Ifanc. Gan nad oedd cyfrifon archwiledig wedi'u derbyn, **argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(iv) Sefydliad y Galon

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Sefydliad y Galon. Gan nad oedd cyfrifon archwiledig wedi'u derbyn, **argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(v) Elusen Ysbyty Plant Arch Noa

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Elusen Ysbyty Plant Arch Noa. Gan nad oedd cyfrifon archwiledig wedi'u derbyn, **argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(vi) Y Lloffwr

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Y Lloffwr. **Argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(vii) Menter Bro Dinefwr

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Menter Bro Dinefwr. **Argymhellwyd** bod y cais hwn yn cael ei wrthod.

(viii) Dawnsywyr Gwerin Penrhyd

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Ddawnsywyr Gwerin Penrhyd. Gan nad oedd cyfrifon archwiledig wedi'u derbyn, **argymhellwyd** anfon llythyr yn gofyn am gopi o'u cyfrifon archwiledig diweddaraf cyn bod y cais yn cael ei ystyried.

Ceisiadau gan neuaddau pentre, a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976, Adran 19:

Neuadd Lesiant Penybanc	£625
Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili	£625
Neuadd Goffa Gyhoeddus Llandybïe	£1220

Ceisiadau gan glybiau chwaraeon / hamdden a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Clwb Pêl-droed Caerbryn	£150
Clwb Bowlio Mat Byr Penygroes	£150
Clwb Bowlio Dan-do Dinefwr	£100
Clwb Rygbi Llandybïe Cyf - Ieuenctid	£250
Clwb Tennis Llandybïe	£250

Argymhellio eraill

Clwb Pêl-droed KRUF

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth Glwb Pêl-droed KRUF. Gan nad oedd cyfrifon archwiledig wedi'u derbyn, **argymhellwyd** anfon llythyr yn gofyn am gopi o'u cyfrifon archwiledig diweddaraf cyn bod y cais yn cael ei ystyried.

Ceisiadau am gynnal a chadw manau chwarae a ystyriwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1976 (Darpariaethau Amrywiol), Adran 19:

Cymdeithas Lesiant Glowyr Cwmgwili - gardd	£150
--	------

Ceisiadau tuag at gynnal a chadw claddfeydd, a ystyriwyd yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 214.

Capel y Bedyddwyr, Saron	£250
Capel y Drindod, Cross Hands	£250
Capel Jerusalem, Penygroes	£250
Soar, Capel y Bedyddwyr, Llandyfan	£250
Calfaria, Capel y Bedyddwyr, Penygroes	£250
Eglwys Efengylaidd Penygroes	£250
Eglwys y Methodistiaid Calфинаidd, Capel Hendre	£250
Eglwys Mynydd Sion, Penygroes	£250
Eglwys y Plwyf, Llandybïe	£750

85.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd yr Aelodau am ddatgan diddordeb yn yr amrywiol fudiadau y maent yn gysylltiedig â nhw ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y trafodaethau a ddilynodd neu chwaith wedi pleidleisio ar y ceisiadau hyn. Llofnodwyd copïau o'r ffurflenni datgan, i'w cadw gan y Clerc. Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

Y Cynghorydd R. A. Davies Archwilydd Eglwys Plwyf Llandybïe
Archwilydd Cymdeithas Henoed a Phensiynwyr
Llandybïe
Archwilydd Cylch Meithrin Plant Bach Y Llan
Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybïe

86.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.30 yh